# Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

# Canllaw i...
# Ganfod a Rheoli Risgiau

# Canllaw i Ganfod a Rheoli Risgiau

Mae mynd ati mewn ffordd effeithiol i reoli a monitro'r risgiau yr ydym ni yn eu hwynebu fel sefydliad yn fater o bwys sylweddol i'r Cyngor cyfan. Tra ein bod yn gweithio, rydym ni i gyd yn agored i risgiau, a hynny o ran bygythiad i'r gwasanaeth a ddarperir a'r potensial o golli cyfleoedd. Mae'n hanfodol felly i ni ddangos ein bod yn ystyried goblygiadau'r risg yn llawn wrth i ni ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion yn Nhorfaen.

Yn y pen draw, mae rheoli risg effeithiol yn ein helpu i sicrhau ein bod **manteisio i'r eithaf ar ein cyfleoedd, a lleihau'r risgiau yr ydym yn eu hwynebu**, felly'n gwella gallu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau gwella'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Rydym yn disgrifio risg fel:

**"Y <u>tebygolrwydd</u> y bydd rhywbeth yn digwydd, fydd yn cael <u>effaith</u> ar fusnes y Cyngor."**

## Pam mae rheoli risg yn bwysig?

Rheoli risg yw'r dull systematig a gynllunnir i adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau. Amcan rheoli risg yw diogelu asedau ac enw da'r Cyngor, a sicrhau ein llesiant ariannol a sefydliadol parhaus.

Mae rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethu corfforaethol da ac mae'n gyfrifoldeb ar y Cyngor i roi proses ar waith i reoli risg. Trwy greu cyfres o gofrestrau risg cynhwysfawr, wedi eu cydlynu'n gywir, gall y Cyngor bennu ei "barodrwydd i dderbyn risg" a rhoi mesurau ar waith i liniaru a rheoli risg.

Er y cydnabyddir y bydd rhai risgiau bob amser yn bodoli ac na fyddant byth yn cael eu dileu, mae'n bwysig bod pob gweithiwr yn canfod, gwerthuso a derbyn cyfrifoldeb am y risgiau sy'n gysylltiedig â'u meysydd gwaith.

## Mae rheoli risg yn dda yn ymwneud â deall…..

- Yr hyn allai fynd o'i le;
- Y canlyniadau, pe bai rhywbeth yn mynd o'i le;
- Penderfynu beth y gellir ei wneud i leihau'r posibilrwydd o rywbeth yn mynd o'i le; a
- Os yw'n mynd o'i le, fel y bydd rhai pethau o bryd i'w gilydd, sicrhau bod yna cyn lleied o effaith â phosibl.

## Bydd rheoli risg da yn arwain at….

- Wella'r penderfyniadau a wneir – gwneir penderfyniadau drwy wybod y ffeithiau llawn, gan bwyso a mesur manteision camau penodol yn erbyn unrhyw risgiau a allai gael eu creu.
- Gweithredu penderfyniadau'n effeithiol - rhoddir ystyriaeth gynnar i ganfod risgiau a all rwystro gweithredu a dyfeisio rheolaethau i'w hosgoi neu eu lleihau.
- Cydymffurfio â gofynion statudol i gael rheolaethau mewnol cynhwysfawr ar waith i reoli risg.
- Amddiffyniad i'r Cyngor, ei wasanaethau a'r cyhoedd sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau -drwy roi rheolaethau priodol ar waith gallwn osgoi neu leihau'r risgiau sy'n deillio o beryglon a bygythiadau.
- Defnyddio adnoddau cyhoeddus yn effeithlon – trwy leihau'r angen i wario arian i gywiro gwallau neu dalu iawndal sy'n deillio o'r ffaith nad oeddem wedi canfod a lliniaru ein risgiau.

## Ein dull o weithredu

Mae'n bwysig bod un dull o reoli risg yn cael ei weithredu ledled y Cyngor. Mae'n rhaid iddi fod yn broses barhaus a datblygol sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Trwy reoli ein risgiau a'n cyfleoedd yn effeithiol, bydd y Cyngor mewn sefyllfa gryfach i:

- Gyflawni ei flaenoriaethau;
- Darparu gwasanaethau gwell i'r cyhoedd;

- Gweithio'n well fel partner gyda sefydliadau eraill; a
- Chynnig gwerth am arian.

Trwy ddilyn y camau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon, bydd cyfres gynhwysfawr o Gofrestrau Risg yn cael eu creu ar gyfer y Cyngor cyfan, i sicrhau:


- y canfyddir y risgiau corfforaethol sydd angen eu monitro'n rheolaidd gan y Tîm Arweinyddiaeth;
- canfyddir risgiau ar lefel Cyfarwyddiaeth, y mae angen eu hadolygu'n rheolaidd drwy'r Uwch Dîm Rheoli, i sicrhau bod y cynnwys yn gywir a bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.
- Canfyddir risgiau i wasanaeth y mae angen eu rheoli o fewn y Meysydd Gwasanaeth a'u hystyried gan y maes gwasanaeth ehangach yn ystod cyfarfodydd UDRh
- Mwy o ffocws ar gyflawn blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
- Darparu gweithgareddau lliniaru pendant yn chwarterol i ddangos yr hyn wnaed i liniaru'r risg; a
- Monitro a diweddaru'r holl risgiau yn barhaus, drwy gydol y flwyddyn.

Caiff pob risg ei chynnwys ar Brif Gofrestr Risg, fydd yn cael ei hadolygu a'i monitro gan y Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol (GRhRC)

## Pa gofrestrau risg sydd gennym?

Mae'r Cyngor yn cynnal cofrestrau risg ar 3 haen: Cofrestr Risg Gorfforaethol, Cofrestr Risg y Gyfarwyddiaeth a Chofrestr Risg Gwasanaeth. Mae risgiau'n symud rhwng cofrestrau er mwyn caniatáu camau rheoli effeithiol a'r gallu i weld y risg.

Rhoddir sgôr i'r risgiau, drwy ddefnyddio matrics 5 x 5, a bydd pob sgôr yn pennu i ba haen o Gofrestr Risg y Cyngor y bydd pob risg yn perthyn. Isod, gweler dadansoddiad, a'r meini prawf ar gyfer symud rhwng yr haenau:




Dylid nodi risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf neu refeniw Dylid nodi risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf neu refeniw unigol sy'n arwyddocaol o ran maint neu natur mewn cofrestr risg ar gyfer y prosiect perthnasol. Dylai'r maes gwasanaeth perthnasol nodi, adrodd a monitro'r risgiau hyn, ac os oes angen, eu huwchgyfeirio i'r GRhRC a'r Tîm Arweinyddiaeth. Mae angen monitro'r holl risgiau a nodwyd a'u gweithgareddau lliniaru cysylltiedig gan gyfleu'r diweddaraf i'r Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol bob chwarter, fel y gall y grŵp ystyried newidiadau a'u cyfleu i'r Tîm Arweinyddiaeth.

## Canfod, cofnodi a rheoli eich risgiau

Nid yw enwi risgiau yn golygu bod pethau'n mynd o'i le neu y bydd pethau'n mynd o'i le. Er enghraifft, gall cynnal a gweithredu canlyniadau adolygiad o wasanaeth, ddenu risg mawr, ond yn y pen draw bydd yn arwain at wella'r gwasanaeth. Mae angen i chi fod yn agored ac onest am y materion mawr y mae eich maes gwasanaeth yn eu hwynebu yn y 12 mis nesaf.

Mae unrhyw risgiau newydd yn cael eu hystyried bob chwarter gan y GRhRC cyn cael eu cymeradwyo gan y Tîm Arweinyddiaeth. Isod, mae'r templed ar gyfer dod â chanfod risgiau newydd:

**M:\Members Common\Corporate Governance & Risk Group\Risk Template - New Risks as at April 22.docx**

Ar ôl eu cymeradwyo, bydd pob risg yn ymddangos ar y Brif Gofrestr Risg, a bydd y risgiau hefyd yn cael eu nodi ar y gofrestr gwasanaeth, cyfarwyddiaeth neu gorfforaethol yn ôl y sgôr a roddir i'r risg.

Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r hyn rydym yn ei wybod fel sefydliad, ac felly bydd y GRhRC yn ymgynghori'n rheolaidd â'r timau corfforaethol fel Cyllid, AD a Chyfreithiol i ganfod patrymau neu dueddiadau ar draws y Cyngor, fydd yn helpu i feithrin gwytnwch a diogelu'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.

Mi fydd risgiau hirdymor, a fydd yn effeithio ar gyflwyno'ch gwasanaethau a hefyd y cymunedau yr ydych yn eu galluogi i wella. Defnyddiwch yr amcanion llesiant a'r pum ffordd o weithio i ganfod y risgiau yr ydych yn agored iddynt yn y tymor byr, canolig a hir, ynghyd â'r camau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n dda.

Wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, mae'n bwysig edrych ymlaen, a thrafod unrhyw risgiau y gellir eu rhagweld gyda'ch Cyfarwyddwr Strategol. Yna, gall y Cyfarwyddwyr Strategol drafod hyn gyda'r Prif Weithredwr yn eu sesiynau 1 i 1, ond bydd ganddynt y disgresiwn i godi unrhyw risgiau posib yn y dyfodol yn eu hadolygiadau perfformiad chwarterol yn y Tîm Arweinyddiaeth, a'u trafod ymhellach.

## Monitro ein risgiau

Bydd rheoli perfformiad gweithgareddau rheoli risg y Cyngor yn sicrhau ein bod yn parhau i drin risgiau yn effeithiol a bod manteision gweithredu mesurau rheoli risg yn uwch o lawer na'r gost o wneud hynny. Rhaid i'n dulliau monitro perfformiad ein risgiau fod yn barhaus barhaus – nid yn unig y broses gyfan, ond hefyd y risgiau unigol a'r amnteision a geir wrth rhoi mesurau rheoli risg ar waith.

Dylid categoreiddio pob risg a ganfyddir fan y penawdau 'TRIN' neu 'GODDEF' gan ddefnyddio'r diffiniadau a ganlyn:

**TRIN** – i leihau'r risg i lefel dderbyniol drwy gymryd camau(au) lliniaru.

**GODDEF** – Gall y Cyngor oddef risg lle nad oes modd lliniaru'r risg mewn modd cost-effeithiol, neu os caiff ei liniaru'r effeithiol gan reolaethau mewnol hyd yn oed os yw'n parhau'n uchel.

Bydd y camau i reoli unrhyw risgiau corfforaethol yn cael eu monitro a'u hadrodd yn chwarterol i'r Tîm Arweinyddiaeth drwy'r GRhRC, a dylai'r meysydd gwasanaeth perthnasol fonitro'r holl risgiau Cyfarwyddiaeth a Gwasanaeth yn rheolaidd drwy'r UDRh a dylid adrodd arnynt bob chwarter i'r GRhRC.

Yn rhan o'r broses monitro, bydd y GRhRC a'r Tîm Arweinyddiaeth yn disgwyl gweld tystiolaeth drwy esboniad i ddangos a yw'r mesurau lliniaru a gyflwynwyd yn gweithio i bob risg. I wneud hyn, gofynnir cyfres o gwestiynau fel a ganlyn:

- Beth sydd wedi cael ei wneud yn y chwarter diwethaf i liniaru'r risg?
- Beth oedd effaith y camau hyn, os o gwbl?
- Os ân fu newid yn sgôr y risg, pam?
- Os yw'r risg yn cael ei hadnabod fel un sydd 'modd ei thrin", pryd allan ni ddisgwyl gweld y sgôr risg yn cael ei lacio?

Deallir y gall rhai risgiau gymryd mwy o amser i'w trin nag eraill, os yw hyn yn wir, bydd y camau i lacio'r risgiau yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Bydd y GRhRC yn asesu'r adborth a gafwyd ac yn adrodd yn ôl i'r Arweinwyr yn unol â hynny.

Rhaid cwblhau “adran risgiau” yn nhempled corfforaethol yr holl adroddiadau ar benderfyniadau sy’n cael eu paratoi ar gyfer y Cabinet, eich Aelod Gweithredol neu Gyfarwyddwr Strategol. I wneud hynny rhaid defnyddio’r canllaw fel y gellir canfod lefel y risg a’i amlygu cyn mynd ati i wneud penderfyniad, ee mae yna risg sylweddol y bydd y gwasanaeth yn methu oni bai y cymeradwyir y camau hyn.

## Terfynu Risgiau

Wrth i risg leihau, neu wrth i’r digwyddiad posib gilio, dylid terfynu’r risgiau a’u tynnu oddi ar y Gofrestr Risg.

Ar yr adeg hon, symudir y risg i dab arall gan nodi ei bod wedi’i therfynu, a chynnwys disgrifiad byr o’r rheswm y mae’r risg wedi’i therfynu, a’r dyddiad y cafodd y risg ei therfynu.

## Camau i’w dilyn i ganfod, gwerthuso a rheoli ein risgiau

Gweler y canllaw cam wrth gam, isod, i ganfod, gwerthuso a rheoli ein risgiau:

- Cam 1 – Canfod eich risgiau
- Cam 2 – Asesu eich risgiau ( Canfod sgôr i’ch risgiau )
- Cam 3 – Rheoli eich risgiau ( Camau lliniaru )
- Cam 4 – Monitro ac Adolygu eich risgiau

## Cam 1 – Canfod eich risgiau

| 1.1 | **Meddyliwch am yr hyn allai fynd o'i le.** |
|---|---|

Defnyddiwch y wybodaeth yn eich Cynlluniau i Brif Swyddogion, Busnes fel arfer neu Hunan Werthusiad i ganfod eich risgiau.

| 1.2 | **Ysgrifennwch eich risgiau mewn ffordd strwythuredig.** |
|---|---|

Er enghraifft, "Mae perygl y gellir rhwystro'r gwasanaeth a ddarperir yn y tymor hir heb gynlluniau gweithlu strategol"

| 1.3 | **Nodwch i ba gategori (neu gategorïau) y mae eich risg yn syrthio.** |
|---|---|

| **Strategol** | **Technoleg ac Arloesi** |
|---|---|
| Gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, deddfwriaethol, amgylcheddol a chystadleuol yn ogystal â'r gofyniad i fodloni newidiadau yn nisgwyliadau cwsmeriaid a dinasyddion | Diogelwch TGCh a chynlluniau wrth gefn i adfer yn dilyn trychineb a chyfleoedd i wella drwy arloesi |
| **Gweithredol** | **Gwelliannau a Pherfformiad** |
| Partneriaeth, gwasanaeth yn methu, risg i gwsmeriaid / staff, iechyd a diogelwch, diogelwch digwyddiadau, materion proffesiynol, cysylltiadau diwydiannol, gallu | Blaenoriaethau/targedau a dangosyddion perfformiad corfforaethol |
| **Rheoliadau Cyfreithiol / Rhwymedigaethau Statudol** | **Rheoli Argyfyngau** |
| Cysylltiedig â'r perygl o dorri rheolau deddfwriaeth | Cynllunio parhad busnes, argyfyngau sifil posibl.<br>Gwadu deiliadaeth, cyfleustodau a TGCh |
| **Enw da ac Ymgyfreitha** | **Ariannol** |
| Materion moesegol, materion amhriodoldeb, gwleidyddol | Cyllidebol, twyll, afreoleidd-dra, cysylltiedig â chontract |
| **Asedau ac Eiddo** | **Prosiectau Mawr** |
| Diogelwch tân ac atal tân, llifogydd, asbestos, clefyd heintus | Caffael, contractau, gwneud penderfyniadau |

# Cam 2 – Asesu eich risgiau (Canfod lefel eich risgiau )

## 2.1 Pa mor debygol yw hyn o ddigwydd?

| Lefel | Tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd yn ystod y deuddeg mis nesaf | |
|---|---|---|
| **1** | Prin | Mae'n annhebygol y bydd y digwyddiad yn digwydd |
| **2** | Posib | Mae'n debygol o ddigwydd |
| **3** | Tebygol | Mae yna gryn siawns (50:50) y bydd yn digwydd |
| **4** | Bron yn sicr | Bydd y digwyddiad bron yn sicr o ddigwydd |
| **5** | Sicr | Mae'r digwyddiad wedi digwydd neu bydd yn bendant yn digwydd |

## 2.2 Beth fydd yr effaith?

| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **O Fawr Bwys** | **Mân** | **Cymedrol** | **Sylweddol** | **Argyfyngus** |
| | | | | | |
| Cyflawni a gweithredu | Problemau gweithredol dydd i ddydd | Medru rheoli'r hyn sy'n amharu ar y gwasanaeth | Amharu ar wasanaeth sy'n hanfodol i'r Cyngor am fwy na 48awr | Amharu'n fawr ar wasanaethau critigol y Cyngor am fwy na 48 awr (ee TGCh yn methu ar raddfa fawr) | Potensial i fygwth bodolaeth gwasanaeth(au) |
| Cydymffurfio | Mynegi pryder<br>Derbyn cwyn | Derbyn rhybudd | Torcyfraith<br>Hysbysiad Gwella | Camau Gorfodi<br>Torri rhwymedigaeth gyfreithiol neu gytundebol gan ddenu sylw cyrff deddfwriaethol neu reoleiddiol yn y tymor canolig | Erlyn<br>Rhaid i Lywodraeth Ganolog gymryd dros y gwaith o ddarparu gwasanaethau |
| Ariannol yn unol â'r rheolau'r gweithdrefnau cyllid | Hyd at £100,000 - o fewn cyfarwyddiaeth | Hyd at £100,000 – ar draws y cyfarwyddiaethau | Rhwng £100,001 a £250,000 – o fewn cyfarwyddiaeth | Rhwng £250,001 a £500,000 – o fewn cyfarwyddiaeth | Dros £500,001 – o fewn cyfarwyddiaeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Rhwng £100,001 a £250,000 – ar draws y cyfarwyddiaethau | Dros £250,001 – ar draws y cyfarwyddiaethau | |
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
| | **O Fawr Bwys** | **Mân** | **Cymedrol** | **Sylweddol** | **Argyfyngus** |
| Amgylchedd yn cynnwys ystyried<br>- Bioamrywiaeth<br>- Allyriadau Carbon<br>- Gwastraff a llygredd<br>- Ansawdd Aer | Ychydig iawn o effaith ar lefelau gwastraff/llygredd/allyriadau carbon sydd angen dim / ychydig iawn o ymyrraeth | Mân effaith ar lefelau gwastraff/llygredd/allyriadau carbon sydd angen mân ymyrraeth | Effaith gymedrol ar lefelau gwastraff/llygredd/allyriadau carbon sydd angen ymyrraeth | Cynnydd mewn lefelau allyriadau/gwastraff/llygredd/allyriadau carbon wrth ddarparu gwasanaethau felly angen mesurau ychwanegol i wrthbwyso a lliniaru | Cynnydd sylweddol mewn lefelau allyriadau/gwastraff/llygredd/allyriadau sy'n cyfaddawdu gallu'r Cyngor i gyflawni niwtraliaeth garbon ac enillion net bioamrywiaeth.<br><br>Colled sylweddol i safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau a cholli bywyd. |
| Enw da | Sylw am gyfnod byr yn y cyfryngau lleol | Sylw parhaus yn y cyfryngau lleol | Newyddion tudalen flaen yn lleol | Sylw andwyol yn y Wasg Genedlaethol | Adroddiad budd y cyhoedd o bosib ac ymyrraeth trydydd parti |
| Iechyd a Diogelwch | Ychydig iawn o anaf sydd angen dim / ychydig iawn o ymyrraeth | Mân anaf neu salwch, sy'n galw am fân ymyrraeth | Anaf cymedrol sydd angen ymyrraeth broffesiynol.<br>Digwyddiad sy'n galw am adroddiad RIDDOR/ asiantaeth | Anaf mawr yn arwain at analluogrwydd tymor hir/ anabledd | Digwyddiad sy'n arwain at farwolaeth, nifer o anafiadau parhaol neu effeithiau iechyd na ellir eu cildroi<br>Marwolaeth gweithwyr |
| Perygl i bobl fregus | Ychydig iawn o effaith ar unigolion sy'n derbyn gwasanaethau | Effaith fach ar unigolion sy'n derbyn gwasanaethau sy'n galw am fân ymyrraeth | Digwyddiad sy'n effeithio ar nifer fechan o unigolion sy'n derbyn gwasanaethau | Effaith ddifrifol i unigolion sy'n derbyn gwasanaethau<br>Camreoli gofal gydag effeithiau hirdymor<br>Torri hawliau dynol | Marwolaeth unigolion sy'n derbyn gwasanaethau |

| 2.3 | Tebygolrwydd ( cam 2.1 ) x Effaith ( cam 2.2 ) = Sgôr risg |
|---|---|

| | Impact | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | 1<br>O fawr bwys | 2<br>Mân | 3<br>Sylweddol | 4<br>Mawr | 5<br>Argyfyngus |
| 5<br>Sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| 4<br>Bron yn sicr | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| 3<br>Tebygol | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| 2<br>Posibl | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| 1<br>Prin | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |

## Cam 3 – Rheoli eich risgiau (Camau lliniaru )

| | |
|---|---|
| **3.1** | **A oes modd lliniaru'r risg?** |
| | Dylech fod yn gallu gosod pob risg a ganfuwyd mewn categori 'TRIN' neu 'GODDEF' gan ddefnyddio'r diffiniadau a ganlyn:<br><br>**TRIN - lleihau'r risg i lefel dderbyniol drwy gymryd cam(au) lliniaru** – os oes modd trin risg, dylai'r tabl isod rhoi arweiniad ar hyn.<br><br>**GODDEF - Gall y Cyngor oddef risg lle nad oes modd lliniaru'r risg yn effeithiol neu os yw'n cael ei lliniaru'n effeithiol gan reolaethau mewnol hyd yn oed os yw'n parhau i fod yn uchel** - os cytunir i oddef y risg, dylid monitro'r risg yn rheolaidd a pharhau i gyfleu'r wybodaeth ddiweddaraf. |
| **3.2** | **Beth ddylech chi ei wneud i leihau'r risg?**<br>**Rhaid cyfeirio at unrhyw gamau lliniaru wrth gyfleu'r diweddaraf yn eich cyfarfodydd monitro chwarterol i'r Grŵp Rheoli Risg a Lywodraethu Corfforaethol** |

| Lefel y risg | Lefel y pryder | Patrwm adolygu a argymhellir | Camau gweithredu sydd eu hangen |
|---|---|---|---|
| **16 - 25** | Pryderus iawn | 1 - 2 fis | Mae'r rhain yn risgiau hanfodol sy'n galw am sylw ar unwaith.<br>Bydd hyn yn golygu bod angen datblygu strategaethau i leihau neu ddileu'r risg.<br>Bydd angen lliniaru ar ffurf triniaeth benodol i drin y risg a rhoi blaenoriaeth i'r adnoddau sydd angen eu targedu ar frys. |
| **9 - 15** | Pryderus | 3 – 4 mis | Mae'r risgiau hyn yn sylweddol.<br>Dylid ystyried datblygu strategaethau i leihau neu ddileu'r risgiau.<br>Dylid lliniaru ar ffurf triniaeth benodol neu gyffredinol a monitro hyn yn rheolaidd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **5 - 8** | Eithaf pryderus<br><br>Gellir goddef y risg ar hyn o bryd* | 5 – 6 mis | Mae'r risgiau hyn yn llai sylweddol, ond gallant achosi anhrefn ac anghyfleustra yn y tymor byr.<br><br>Dylid monitro'r risgiau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol ac nad ydynt yn gwaethygu i gategori risg sy'n uwch.<br><br>* Gallwch oddef y risg os yw adnoddau ychwanegol (cost, amser ac ymdrech) yn gorbwyso lleihau'r risg ee gallwch oddef y risg os yw'r gost o fynd i'r afael â hi yn gymaint â bod ychydig iawn i elwa o wneud hynny. | |
| | **1 - 4** | Ddim yn pryderu<br><br>Risg yn cael ei derbyn ar hyn o bryd | 7 – 8 mis | Mae'r risgiau hyn yn annhebygol o ddigwydd ac nid yw eu heffaith yn sylweddol.<br><br>Dylid eu rheoli gan ddefnyddio trefniadau cynllunio arferol, am fod angen ychydig iawn o fonitro a rheoli arnynt, oni bai bod asesiadau risg dilynol yn dangos newid, sy'n annog eu symud i gategori risg arall. | |

## Cam 4 – Monitro ac Adolygu eich risgiau

| | |
|---|---|
| **4.1** | **A yw'r rheolaethau yn effeithiol?** |

Ychydig o risgiau sy'n aros yn sefydlog – dylid monitro, adolygu ac adrodd ynghylch pob risg, a hynny bob chwarter.
Bydd monitro ac adolygu risgiau yn ffurfio rhan o Sesiynau Monitro Perfformiad Aelodau Gweithredol eich maes gwasanaeth, lle bo hynny'n briodol.

| | |
|---|---|
| **4.2** | **Ydy'r risg wedi newid?** |

Gall y risgiau presennol newid – Gall y tebygolrwydd ac effaith y risg newid ar unrhyw adeg felly mae angen eu monitro'n barhaus.

| | |
|---|---|
| **4.3** | **Oes unrhyw beth newydd?** |

Gall materion a risgiau newydd ddod i'r amlwg ar unrhyw adeg - fel rhan o'r broses fonitro, mae angen adolygu risgiau yn barhaus drwy gydol y flwyddyn.